Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** | |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** | |
| **Dyddiad:** | **19 Mehefin 2015** | |
| **Amser:** | **10y.b. – 12y.h.** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince (PG)<br>Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (CGC)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Irene Davies-Jones (ID-J) – ar gyfer eitemau 1 i 3a<br>Rhingyll Matthew Howells, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MH)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (AP)<br>Mr Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (HT)<br>Miss Karys Thomas, Swyddog Ymchwil (KT)<br>Mrs Siân Jenkins, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (SJ) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Simon Powell (PGC)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/05/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 217** | **Yr Heddlu i rannu'r adroddiad Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Cysur ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Gorffennaf.** | **Cyfredol– ar agenda BAH mis Gorffennaf** |
| **PAB 218** | **Yr Heddlu i ddarparu diweddariad ar MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Mehefin.** | **Cwblhawyd – ar agenda BAH mis Gorffennaf** |
| **PAB 219** | **Yr Heddlu i roi data amrwd i SR ar gyfer cyfeiriadau MARAC.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 220** | **Yr Heddlu a SCHTh i ddatblygu arolwg bodlonrwydd dioddefwyr penodol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.** | **Ar waith** |
| **PAB 221** | **Yr Heddlu i ymchwilio i'r galw ar gyfer Oedolion Priodol yn y ddalfa.** | **Ar waith** |
| **PAB 222** | **SCHTh i hyrwyddo ymgyrch 'Edrych Ar Ôl Eich Drychau' yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 223** | **Y CC i rannu gwaith ar safoni mewn perthynas â chydweithio o ran caffael.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 224** | **Yr Heddlu i ddarparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â chostau ar gyfer cyflenwr meddygol fforensig; darparwyr cerbydau; adeiladwyr a darparwyr telegyfathrebu i'r PSA.** | **Cwblhawyd** |

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 15 Mai 2015 a Materion yn Codi**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod gan wneud rhai mân newidiadau i'r cynnwys.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 3**

Cyflwynodd Mrs Irene Davies-Jones drosolwg o Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 3 - Dwyn Pobl i Gyfiawnder. Roedd y themâu allweddol a'r diweddariadau ers y diweddariad blaenorol fis Ionawr yn cynnwys ystadegau Dwyn Pobl i Gyfiawnder; Cyfiawnder Troseddol; Cydymffurfiaeth Gynaledig; a Datrysiadau Cymunedol Oedolion.

Cododd y CHTh nifer o gwestiynau ar gyfer yr Heddlu, yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad.

Gofynnodd y CHTh pam oedd nifer y troseddau a ddygwyd i gyfiawnder wedi gostwng o 2013 i 2014. Mae hyn yn bennaf oherwydd y newidiadau i gofnodi troseddau. Hefyd, nododd I-DJ bod troseddau'n cael eu cofnodi pan maen nhw'n digwydd ac mae'r data troseddau a ddygwyd i gyfiawnder yn cael ei gofnodi pan mae'r achos wedi dod i ben felly nid yw'r ffigurau'n cyfuno. Gofynnodd y CHTh pa un ai a fyddai ffigurau'n cydymffurfio flwyddyn nesaf ac yn symud yn ôl tuag at y gyfradd troseddau a ddygwyd i gyfiawnder o 60%? Nododd y PG y dylid ystyried gwaelodlin newydd ar gyfer mesur yn y dyfodol, yn dilyn newidiadau mewn cofnodi troseddau.

Mewn perthynas ag ansawdd ffeiliau, gofynnodd y CHTh beth oedd rôl Ymgynghorydd Cyn Cyhuddo. Dywedodd ID-J eu bod nhw'n adolygu ffeil cyn iddo fynd at Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG), gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y ffeil a bod tebygolrwydd o erlyniad. Bydd yr Ymgynghorwyr Cyn Cyhuddo hefyd yn cynorthwyo â darn o waith sy'n asesu pam nad yw pob achos yn cael ei symud yn ei flaen e.e. oherwydd nad yw o fudd i'r cyhoedd neu oherwydd bod rhai materion ag ansawdd y ffeiliau sydd wedi'u cyflwyno.

Gofynnodd AP pa gyfran o ffeiliau sy'n cael eu hanfon o'r Uned Dilyniant Achosion (UDA) i GEG sy'n cael eu hystyried o ansawdd digon da o ran safonau GEG. Dywedodd I-DJ bod y nifer yn gyson uchel oherwydd gwaith adfer diweddar ar wella ansawdd ffeiliau a bod gwybodaeth yn rhan o ddata Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn (RhPTE). Bydd I-DJ yn rhannu data'r tri mis diwethaf â SCHTh ac yn ei ychwanegu i adroddiadau ar RhPTE yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu data Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn (RhPTE) dros y tri mis diwethaf i SCHTh a'i ychwanegu i adroddiadau yn y dyfodol ar RhPTE.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y mae GEG yn gwneud y penderfyniad ar ffeil a'r mesur newydd o ba un ai a yw ffeil yn foddhaol neu'n anfoddhaol. Nodwyd os fydd ffeil yn anfoddhaol o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD), bydd yr achos yn dod i ben (oni bai bod rhywbeth hanfodol ar goll). Mynegodd CHTh ei bryderon mewn perthynas â dod ag achos i ben a gofynnodd am i achosion o'r fath gael eu hadrodd mewn BP/BAH, yn ogystal â'u trafod yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl). Cadarnhaodd y PG y byddai'r Heddlu'n herio unrhyw dor parhad. Nododd I-DJ nad oedd achosion cam-drin domestig yn eistedd o dan TCD.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i adrodd tor parhad achosion o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD) i gyfarfod o'r BP/BAH.**

Gofynnodd KT beth yw'r terfynau uchaf ac isaf ar gyfer cyfraddau athreulio gan eu bod nhw ychydig yn wahanol ar draws y gwahanol fathau o droseddau. Cadarnhaodd ID-J nad yw'r terfynau wedi'u gosod ar gyfer mathau penodol o droseddau a bod ffigurau perfformiad yn dueddol o amrywio. Mae'r cyfartaledd yn amrywio o fis i fis ac mae'n

seiliedig ar y cyfartaledd cenedlaethol. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y mae'r heddlu'n edrych ar y ffigurau misol, gan ystyried rhifau isel a nodi unrhyw dueddiadau.

Gofynnodd KT pa un ai a oes gan yr heddlu unrhyw gymariaethau ar gyfer categorïau Gwarant. Dywedodd ID-J bod yr heddlu'n cyflwyno'r enillion yn genedlaethol felly bydd y data ar gael. Cadarnhaodd ID-J mai targed cenedlaethol yw'r targed o 70% a osodir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Holodd y CHTh beth oedd gwarant electronig. Dywedodd ID-J bod gwarantau'n cael eu he-bostio nawr yn hytrach na'u postio. Hefyd, holodd CHTh am y system y mae TGaCh yn gweithio arni er mwyn i adroddiad gwarant electronig gael ei phoblogi o'r system paratoi achosion. Cadarnhaodd ID-J y gall y wybodaeth gael ei mewnbynnu'n syth i'r system yn awr a gellir anfon adroddiad yn electronig.

Gofynnodd y CHTh beth oedd cam dau o'r Rhaglen Effeithlonrwydd Cyfiawnder Troseddol. Cadarnhaodd ID-J mai cam dau fydd pryd y bydd penderfyniadau cyhuddo GEG yn mynd trwy'r porth digidol a fydd yn golygu gwelliant pellach.

Mewn perthynas â Thrawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD), gofynnodd y CHTh pa ganran o'r achosion sy'n bodloni'r marc 14 diwrnod – nid oedd yn ffigwr yn hysbys ar y pryd gan fod TCD ond wedi bod yn fyw ers diwedd mis Mai.

Gofynnodd y CHTh am rôl yr Uned Cymorth Busnes (UCB) o fewn cyfiawnder troseddol. Cadarnhawyd bod yr UCB yn cyflawni gwaith trafodaethol a oedd yn cael ei wneud yn flaenorol gan yr Adran Cyfiawnder Troseddol sy'n cynnwys gweithredu gwarantau, symud pob ffeil traffig yn ei blaen a diweddaru Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu â chanlyniadau achosion.

Aeth y Peilot Mechnïaeth Cyn Cyhuddo Cenedlaethol yn fyw ar 1 Mehefin a bydd yn rhedeg am 6 mis. Gofynnodd KT lle y mae'r Heddlu'n credu y bydd y Peilot Mechnïaeth Cyn Cyhuddo Cenedlaethol yn gwella rheoli mechnïaeth a pha un ai a fydd oblygiadau o ran adnoddau. Gofynnodd y CHTh am eglurder o ran beth oedd y model mechnïaeth cyn cyhuddo amgen, ac esboniodd y PG y weithdrefn a sut yr awdurdodir mechnïaeth. Holodd y CHTh sut y mae'r Heddlu'n mesur y peilot a beth maen nhw eisiau iddo gyflawni. Cadarnhaodd y PG mai'r diben oedd lleihau nifer y bobl ar fechnïaeth; bod achosion yn cael eu trin mor effeithiol â phosibl; a'r rhesymau pam yr estynnir mechnïaeth.

Gofynnodd y CHTh am wybodaeth ar y broses o fonitro mechnïaeth a chymhariaeth rhwng ffigurau cyn cyflwyno monitro mechnïaeth a ffigurau blaenorol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu dadansoddiad o amserau mechnïaeth â SCHTh.**

Gofynnodd y CHTh am fwy o wybodaeth ynghylch sut y mae'r ganolfan i ddioddefwyr yn gysylltiedig ag Action Fraud.  Esboniodd ID-J y weithdrefn gyfredol y mae Action Fraud yn anfon data drwy daenlenni i'r Heddlu sydd yna'n cael eu gosod ar systemau Cymorth i Ddioddefwyr. Maen nhw'n cydweithio er mwyn osgoi mewnosod ddwywaith ar systemau. Hefyd, adroddodd AP ar y gwaith sy'n digwydd er mwyn sicrhau bod pob dioddefydd sy'n byw yn ardal Dyfed-Powys yn cael eu cefnogi'n lleol, hyd yn oed os yw'r heddlu sy'n ymchwilio mewn ardal arall. Cadarnhaodd ID-J bod y bydd dal gan y Swyddog Ymchwilio gyfrifoldeb am y dioddefydd hwnnw ond bydd yn golygu bod y dioddefydd yn cael cymorth yn gynnar, hyd yn oed os nad yw achos yn destun ymchwiliad. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y byddai cymorth yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr yn yr achosion hyn.

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ar leoliadau cysylltiadau fideo yn y Llysoedd a'r Gwasanaeth Prawf y gallai'r Heddlu ddefnyddio i leihau rhywfaint o amser swyddogion yn y llys. Cadarnhaodd ID-J bod cysylltiadau fideo ar hyn o bryd yn llysoedd Llanelli, Aberystwyth, Hwlffordd, Llandrindod, Aberhonddu a'r Trallwng ond nad oedd y cyfleuster hwnnw ar gael yng Nghaerfyrddin ar hyn o bryd. Nododd y CHTh nad oedd gwybodaeth wedi'i derbyn hyd yn hyn wrth y Gwasanaeth Prawf am eu lleoliadau. Cadarnhawyd nad yw'n bosibl i gysylltu cysylltiadau fideo'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Llysoedd ond mae TGaCh yn gweithio ar hyn o bryd ar allu cyswllt byw a'r costau cysylltiedig. Gofynnodd y CHTh beth oedd y Gweithgor Cysylltiadau Byw. Esboniodd  ID-J mai grŵp cymharol newydd ydoedd a gyflwynwyd gan y llysoedd gyda chynrychiolaeth o'r pedwar heddlu, ynadon a GEG. Cadarnhaodd ID-J bod y grŵp hwn yn gweithio ar nodi lleoliadau cyswllt fideo.

Gofynnodd y CHTh pam oedd y newidiadau o ganlyniad i gyflwyno dyfeisiau symudol llaw wedi "arwain at broses mwy cymhleth ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau'r Adran Cyfiawnder Troseddol sydd wedi dyblu'r amser sy'n gysylltiedig ag adolygu ffeil". Esboniodd ID-J bod y ffurflen ddigidol ar gyfer adrodd am adroddiadau damweiniau'n

cynnwys mwy o ‘dudalennau’ na’r ffurf papur. Mae Kelvin Connect yn gweithio gyda heddluoedd yn genedlaethol i wneud hynny’n fwy hwylus.

Gofynnodd y CHTh am gadarnhad bod y datganiadau tyst electronig eisoes yn cael eu defnyddio. Nododd ID-J bod y profi sy’n digwydd fis Gorffennaf i alluogi tystion, dioddefwyr a gyrwyr sy’n gysylltiedig â Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd i roi tystiolaeth yn electronig drwy’r Rhyngrwyd.

Holodd y CHTh am bryderon a godwyd gan Ynadon mewn perthynas â’r posibilrwydd y bydd prosesau’n cael eu cam-drin - yn arbennig yr amser a gymerir i gyrraedd y llys ar Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu (achosion moduro). Esboniodd ID-J bod dau reswm: nifer yr ymgyrchoedd sy’n achosi nifer uwch o achosion i fynd trwyddynt; a’r ôl-groniad o ran prosesu ffeiliau traffig a damweiniau. Esboniodd ID-J y prosesau a’r amserlenni cysylltiedig pan mae trosedd foduro’n digwydd. Ychwanegodd y PG bod yr Heddlu nawr yn gwneud gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol gan GEG heb adnoddau ychwanegol. Nododd y CHTh hefyd bod y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus wedi derbyn nifer o gwynion yn ddiweddar oherwydd nad yw pobl yn derbyn llythyrau ynghylch troseddau traffig mewn pryd ar gyfer dewis cwrs ac sy’n gorfod mynd i’r llys yn y pen draw. Hefyd, holodd y CHTh am ffigurau o ran pryd y mae llythyrau’n cael eu cyhoeddi ar ôl y drosedd a’r amserlen gyfartalog o gymharu â chanllawiau statudol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu data ar yr amser rhwng troseddau traffig yn digwydd a llythyrau’n cael eu hanfon/achosion yn cael eu rhestri gerbron llys.**

Holodd KT ynglŷn â’r amrywiad ar nifer y Datrysiadau Cymunedol Oedolyn sy’n cael eu cyhoeddi yn y ddalfa ac yn arbennig, y nifer gymharol isel ar gyfer Sir Benfro a Phowys. Dywedodd y PG fod hyn oherwydd natur yr ardaloedd, sut y maen nhw’n cael eu cyhoeddi a’r ffaith bod Datrysiadau Cymunedol Oedolyn ond wedi’u lansio fis Ionawr. Gofynnodd y CHTh pa un ai a yw’r Heddlu’n cofnodi pa sancsiynau sy’n cael eu gweithredu â’r Datrysiadau Cymunedol Oedolyn hynny. Dywedodd y PG y byddan nhw’n edrych ar sut mae’n gweithio, yn gwerthuso ac yn edrych ar yr effaith mae wedi cael ar drosedd ac anhrefn mewn ardaloedd lleol. Hefyd, nododd y PG bod rhai Cynghorwyr Cymuned wedi gwneud awgrymiadau o ran sut i weithredu sancsiynau’n lleol e.e. gwaith cymunedol. Dywedodd y CHTh yr hoffai weld sut y mae’r Datrysiadau Cymunedol Oedolyn yn cael eu defnyddio a sut maen nhw’n cael eu craffu. Cadarnhaodd y PG eu bod

nhw'n cael eu craffu gan gyfarfodydd perfformiad lleol sy'n cael eu cadeirio gan y PGC ac y byddant yn dod nôl i ddigwyddiad perfformiad yr Heddlu er mwyn i'r PG graffu arnynt. Gofynnodd CHTh pa un ai a oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Panel Craffu ar Waredìadau y Tu Allan i'r Llys ystyried a chytunodd y PG y byddai hyn yn briodol ar ôl i'r PG ei archwilio mewn digwyddiad perfformiad yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: Yr heddlu i roi gwybodaeth ar sancsiynau a ddefnyddir ar gyfer datrysiadau cymunedol a nodwyd (i'r BAH a'r panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys graffu arnynt yn y dyfodol).**

Gofynnodd KT pa un ai a oedd rheswm dros y gostyngiad yn y maint carfan ar gyfer y cynllun Trawsnewid Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM). Dywedodd y PG nad oedd yn gwybod y rheswm ond byddai'n darparu hynny.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu'r rheswm dros leihau'r maint carfan ar gyfer y cynllun Trawsnewid IOM.**

Diolchodd y CHTh i ID-J am ei chyflwyniad.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 3**

Cyflwynwyd Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar gyfer ei nodi ac roedd yn cynnwys diweddariadau ar y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol.

Nododd AP gytundeb gwasanaeth peilot rhwng SCHTh a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i ddarparu gwell mynediad at gyfiawnder adferol ar gyfer dioddefwyr. Nododd AP y dylai "Cysylltiadau Gweithio" ddarllen "Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru" o fewn yr adroddiad. Bydd diweddariad ar y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol mis Gorffennaf ac yna'n cael ei fwydo yn ôl i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ar ddyddiad hwyrach.

Ailadroddodd y CHTh y wybodaeth roedd e'n ceisio mewn perthynas â chysylltiadau byw o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol – ble mae gan yr asiantaethau amrywiol (gan gynnwys yr Heddlu) allu fideo; a fedrwn eu cael nhw i gysylltu â'i gilydd; os nad yw cyswllt yn bosibl, sut ellir rhannu'r adnoddau sydd ar gael.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd KT adroddiad perfformiad SCHTh i'r Bwrdd a oedd hyn cynnwys ffigurau hyd at fis Mai. Nododd KT bod yr adroddiad mis hwn yn canolbwyntio ar droseddau trefn gyhoeddus, lladradau a cham-drin domestig, ac roedd yr adran Gwario'n Ddoeth yn canolbwyntio ar anfonebu dyledwyr. Roedd SR a KT wedi paratoi cwestiynau cyn y cyfarfod a oedd wedi'u dosbarthu i'r Heddlu. Yn y cyfarfod, atebodd yr Heddlu'r cwestiynau hynny ac mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i ddiweddaru â'r wybodaeth ychwanegol (yn amgaeedig â'r Cofnodion).

Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch pam y mae digwyddiadau cam-drin domestig yn uwch yn Sir Benfro nag ardaloedd tiriogaethol eraill, mae SCHTh wedi derbyn ymateb wrth y Prif Arolygydd Cockwell yn esbonio nad yw'r rheswm yn hysbys. Cadarnhaodd yr PG y bydd yr Heddlu'n ffurfio 'proffil problemus' ac yn ei rhannau â SCHTh unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu 'proffil problemus' mewn perthynas â Cham-drin Domestig â SCHTh.**

Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch pa un ai a oedd yr Heddlu'n gwybod pa fath o ddeilliannau oedd yn cael eu gweithredu i droseddau Trefn Gyhoeddus, cytunwyd y byddai'r data hwn ar gael yn fuan, ac y byddai SR a KT yn dadansoddi'r data.

**Cam Gweithredu: SR a KT i ddadansoddi deilliannau ar gyfer troseddau Trefn Gyhoeddus.**

Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd yr heddlu mewn sefyllfa i fesur effaith cyflwyno plismona digidol symudol er mwyn gweld yr enillion ar y buddsoddiad yn y prosiect. Cytunodd y Bwrdd y gellir darparu asesiad ymhen chwe mis. Nododd y CHTh y byddai SCHTh yn paratoi cwestiynau ar gyfer yr heddlu cyn yr asesiad hwnnw.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu asesiad o enillion ar y buddsoddiad yn y prosiect plismona digidol ar gyfer BAH mis Ionawr, a SCHTh i ddarparu cwestiynau mewn perthynas â'r asesiad hwnnw ymlaen llaw.**

Yn dilyn trafodaeth ar drwyddedu arfau saethu, gofynnodd CHTh am gopi o'r ffigurau ar drwyddedu arfau saethu gan y CGC.

Mewn perthynas â'r rhaglen newid Y Cyhoedd yn Gyntaf, gofynnodd y PSA pryd y byddai adolygiad gweithredu swyddi'n cael ei gynnal a phryd fyddai'n cael ei gyhoeddi. Dywedodd y CA y bydd hyn yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf ac yn cael ei rannau â BP/BAH perthnasol.

**Cam gweithredu: Adolygiad gweithredu Y Cyhoedd yn Gyntaf i'w adrodd yn ôl i'r BAH/BP.**

**Adroddiadau Diweddaru**

***Cwestiynau o gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion***

Roedd y cofnodion o GPS Mehefin wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod. Gofynnodd y PSA pa un ai a oedd y 31 swydd staff heddlu gwag mewn un man neu wedi'u gwasgaru. Cadarnhaodd y CA bod hyd at dreian ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a bod y gweddill wedi'u gwasgaru.

***Diweddariad ynglŷn â'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH)***

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar MASH a nododd y byddai adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer BAH Gorffennaf. Nododd y PG bod Rheolwr Prosiect mewn grym a'u bod nhw wedi cwmpasu'r opsiynau sydd ar gael. Bydd adolygiad y Swyddfa Gartref o ganolfannau diogelu'n parhau fel rhan o'r gwaith hwnnw.

***Diweddariad ynghylch TCC***

Diolchodd y CHTh yr Heddlu am eu hadroddiad diweddaru ar ddarpariaeth TCC yn Sir Gaerfyrddin ac am eu gwaith o ran cael cytundeb ar y sefyllfa. Cadarnhaodd y CHTh y bydd yn ei gymeradwyo ond nododd ei bryderon ynghylch llai o deledu cylch cyfyng drwy'r broses hon. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd y cyfanswm cost yn cynnwys elfen ar gyfer camerâu newydd a gofynnodd pa un ai a fyddai'r heddlu'n gwneud cyfraniad o £30,000 neu £40,000 y flwyddyn tuag at y gwaith cynnal a chadw. Dywedodd y PG bod y cytundeb wedi'i wneud mewn egwyddor ond byddai'r union ffigurau'n cael eu hegluro o fewn y dogfennau cytundeb.

Cafwyd trafodaeth ar fonitro TCC yn gyffredinol a goblygiadau rhai partneriaid sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn tynnu buddsoddiad sylweddol yn ôl. Dywedodd y PG y byddai'n codi'r mater hwn yn ystod y cyfle nesaf â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru gan fod oblygiadau gan y sefydliadau o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

Roedd y CHTh eisiau edrych eto ar ddarpariaeth TCC Sir Gaerfyrddin mewn 12 mis er mwyn deall sut mae Dyfed-Powys yn defnyddio TCC. Cytunodd y PG y gellir cynnal gwerthusiad i gynnwys asesiad o'r hyn y mae DP yn cael am ei fuddsoddiad; pa un ai a i barhau â'r cytundeb; a'r effaith ar y cyhoedd. Nododd y PG hefyd bod yr Heddlu'n trafod â chyrff eraill am ymgymryd â gwaith i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio gwirfoddolwyr i gynnal peth monitro TCC ar amserau allweddol.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i gynnal gwerthusiad o'r defnydd o TCC ac asesu pa un ai a ddylid parhau i'w ariannu mewn 12 mis.**

***Cefnogaeth Heddlu o'r Awyr***

Nododd y PG bod y cwestiwn yn cael ei godi yng Nghynulliad Cymru am werth Cefnogaeth Heddlu o'r Awyr. Hefyd, nododd y PG ei fod wedi derbyn diddordeb sylweddol gan gynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn lleol o gwmpas cefnogaeth o'r awyr, a'i fod e'n bwriadu gwahodd Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad ac Arweinwyr Cynghorau i sesiwn wybodaeth weithredol am ddefnydd yr heddlu o gefnogaeth o'r awyr a gofynion gweithredol yr Heddlu.

Doedd dim busnes arall.

**Camau Gweithredu:**

| CRYNODEB O GYFARFOD 19/06/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 225** | **Yr Heddlu i rannu dadansoddiad o amserau mechnïaeth â SCHTh.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 226** | **Yr Heddlu i ddarparu data ar yr amser rhwng troseddau traffig yn digwydd a llythyrau'n cael eu hanfon/achosion yn cael eu rhestri gerbron llys.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 227** | **Yr heddlu i roi gwybodaeth ar sancsiynau a ddefnyddir ar gyfer datrysiadau cymunedol a nodwyd (i'r BAH a'r panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys graffu arnynt yn y dyfodol).** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 228** | **Yr Heddlu i ddarparu'r rheswm dros leihau'r maint carfan ar gyfer y cynllun Trawsnewid IOM.** | **Yr Heddlu** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 229** | **Yr Heddlu i rannu 'proffil problemus' mewn perthynas â Cham-drin Domestig â SCHTh.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 230** | **SR a KT i ddadansoddi deilliannau ar gyfer troseddau Trefn Gyhoeddus.** | **SR/KT** |
| **PAB 231** | **Yr Heddlu i ddarparu asesiad o enillion ar y buddsoddiad yn y prosiect plismona digidol ar gyfer BAH mis Ionawr, a SCHTh i ddarparu cwestiynau mewn perthynas â'r asesiad hwnnw ymlaen llaw.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 232** | **Adolygiad gweithredu Y Cyhoedd yn Gyntaf i'w adrodd yn ôl i'r BAH/BP.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 233** | **Yr Heddlu i gynnal gwerthusiad o'r defnydd o TCC ac asesu pa un ai a ddylid parhau i'w ariannu mewn 12 mis.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 234** | **Yr Heddlu i ddarparu data Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn (RhPTE) dros y tri mis diwethaf i SCHTh a'i ychwanegu i adroddiadau yn y dyfodol ar RhPTE.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 235** | **Yr Heddlu i adrodd tor parhad achosion o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD) i gyfarfod o'r BP/BAH.** | **Yr Heddlu** |